University of South Wales
Prifysgol De Cymru

PRIFYSGOL DE CYMRU

Adroddiad Monitro ar y Safonau Iaith Gymraeg

Yn seiliedig ar ddata a gofnodwyd rhwng 1 Awst 2020 hyd at 31 Gorffennaf 2021

1. CYFLWYNIAD

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn creu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6)). Bwriad y Safonau yw:

- darparu eglurder i sefydliadau am eu dyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg
- darparu eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallent ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau Cymraeg a gwella'u hansawdd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau yng Nghymru drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ers 1 Ebrill 2018 mae gan Brifysgol De Cymru ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel a nodir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a ddosbarthwyd ar 29 Medi 2017. Mae Safonau'r Gymraeg yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol.

Yn unol â gofynion y Safonau, rhaid i'r Brifysgol gynhyrchu adroddiad monitro sy'n cyfateb i'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac yn trafod sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r safonau. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o fewn 6 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn trafod y cyfnod rhwng 1 Awst 2020 a 31 Gorffennaf 2021.

Rhaid cynnwys y materion canlynol yn yr adroddiad:

- Y modd y gwnaeth y brifysgol gydymffurfio â'r safonau yr oeddem dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw (fesul dosbarth o safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredol, cadw cofnodion);
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd (fesul dosbarth o safonau – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredol, cadw cofnodion);
- Nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw;
- Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi penodol a gynigwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn, a'r ganran o'r holl fynychwyr wnaeth fynychu'r fersiwn Cymraeg;
- Nifer y swyddi gwag a newydd a hysbysebwyd gyda gwahanol ofynion o ran sgiliau Cymraeg.

Cyhoeddir yr adroddiad ar wefan Prifysgol De Cymru ar 31 Ionawr 2022.

Yn ystod y cyfnod hwn parhaodd mwyafrif y staff i weithio o gartref oherwydd pandemig Covid-19, gyda nifer bach yn parhau i weithio ar y campws gyda threfniadau Covid-19 mewn grym.

2. CYRAEDDIADAU

Sesiynau anffurfiol wythnosol i staff a myfyrwyr	Ers canol mis Mawrth 2020 mae sesiynau anffurfiol ar-lein wythnosol wedi'u cynnal mewn cydweithrediad â Menter Iaith Casnewydd, i gefnogi myfyrwyr Cymraeg a datblygu eu hyder i siarad Cymraeg. Parhaodd y Brifysgol gyda'i sesiwn wythnosol, anffurfiol ar-lein i staff Cymraeg eu hiaith ddod at ei gilydd o bob rhan o'r Brifysgol a chymdeithasu drwy MS Teams.
Diwrnod 'Mae Gen I Hawl'	Ym mis Rhagfyr 2020 dathlodd y Brifysgol Ddiwrnod Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg 'Mae gen i hawl' drwy rannu straeon ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol (gweler ffigwr 1). Fe wnaethom hefyd gynnal sesiynau ar-lein gyda'n myfyrwyr a'n staff i amlygu eu hawliau cyfreithiol.
Sesiynau atgoffa Safonau'r Gymraeg	Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd atgoffa trwy gydol y flwyddyn i hysbysu uwch reolwyr am unrhyw ddatblygiadau gyda Safonau'r Gymraeg. Roedd y cyfarfodydd yn gyfle i staff adolygu eu gweithdrefnau presennol a gofyn am gyngor ynghylch Rheoliadau Safonau'r Gymraeg.
Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Shwmae	Cynhaliodd yr Uned Gymraeg foreau coffi ar-lein gyda staff a myfyrwyr i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar Fawrth 1af a Diwrnod Shwmae ar 15fed Hydref. Daeth nifer dda o fyfyrwyr, staff a chydweithwyr sy'n dysgu Cymraeg o bob rhan o'n campysau i'r digwyddiadau. Trefnodd y Gymdeithas Myfyrwyr Cymraeg hefyd ddigwyddiad cymdeithasol ar-lein i fyfyrwyr.
Darparodd Canolfan Dysgu Cymraeg Morgannwg sesiynau blasu i'n myfyrwyr rhyngwladol	Yn ystod eu hwythnos anwytho ym mis Medi, darparodd Canolfan Dysgu Cymraeg Morgannwg ddwy sesiwn i gyflwyno'r iaith Gymraeg a'n treftadaeth i'n myfyrwyr rhyngwladol.

Ffigwr 1


Prifysgol De Cymru
7 December 2020 ·
Roeddwn i wedi cael y siawns i astudio traean o fy ngradd yn Gymraeg yn PDC, opsiwn a ganiataodd imi barhau i ddatblygu fy sgiliau iaith ar ôl gadael y chweched dosbarth. Fe wnes i hyd yn oed cwblhau fy mhrofiad gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg a wnaeth hyn caniatáu imi neidio'n syth i'm gyrfa ddelfrydol ar ôl graddio
#maegenihawl
See translation
Rebecca Bowen and 6 others
1 share

3. LLYWODRAETHU A MONITRO

3.1 Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd, (yn flaenorol y Pwyllgor Adnoddau Dynol) yn cynghori Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol De Cymru ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg a chydymffurfiaeth y Brifysgol â'r Safonau. Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau yn gyson ar unrhyw faterion yn ymwneud â'r Gymraeg ac mae Is-Ysgrifennydd y Brifysgol a Phennaeth y Gymraeg yn mynychu'r cyfarfodydd hynny.

3.2 Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg

Mae gan y Brifysgol Grŵp Llywio'r Gymraeg a gadeirir gan Ysgrifennydd y Brifysgol. Mae gan y Grŵp rôl benodol i ddatblygu a gwella defnydd y Brifysgol o'r Gymraeg, yn enwedig yng nghyd-destun gweithredu Safonau'r Gymraeg a monitro cydymffurfiaeth yn erbyn y Safonau. Mae'r Grŵp yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn ac yn cynnwys uwch swyddogion a chynrychiolwyr ar draws y Brifysgol.

3.3 Cydlynwyr y Gymraeg

Mae gan bob cyfadran ac adran ganolog ym Mhrifysgol De Cymru Gydlynydd y Gymraeg sy'n cynorthwyo i ymdrin ag unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynghylch Safonau'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys materion sy'n ymwneud â darpariaeth addysgol, a hawliau cyfreithiol myfyrwyr, staff a'r cyhoedd.

Cynhelir cyfarfodydd Cydlynwyr y Gymraeg deirgwaith y flwyddyn a chânt eu cadeirio gan Swyddog yr Iaith Gymraeg. Mae'r cyfarfodydd yn gyfle i drafod unrhyw ddatblygiadau newydd, megis adroddiadau neu geisiadau am wybodaeth gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae hefyd yn gyfle i roi adborth ar ein perfformiad monitro blynyddol; rhannu arfer dda; gofyn am gyngor gan yr Uned Gymraeg a chydlynwyr eraill; a thrafod ffyrdd o hybu a chynnal ymwybyddiaeth o'r Safonau yn eu priod feysydd.

3.4 Monitro

Fel y cytunwyd gan Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg a Chydlynwyr y Gymraeg, ymgymerir â gwaith monitro yn fewnol gan Uned yr Iaith Gymraeg. Gwneir hyn yn bennaf drwy ddulliau siopwyr cudd (ymweliadau, galwadau ffôn, negeseuon e-bost ac adolygu'r wefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol) gyda'r amcan o adnabod arfer dda a'r meysydd sydd angen cefnogaeth neu hyfforddiant ychwanegol. Gwneir y gwaith hwn unwaith y flwyddyn gan yr Uned Gymraeg ac adroddir yn ôl ar y canlyniadau i'r cydlynwyr a'r rheolwyr a'r penaethiaid perthnasol.

Unwaith y flwyddyn mae'n ofynnol i bob adran a chyfadran gyflwyno diweddariad blynyddol ar eu cynlluniau gweithredu unigol i'r Uned Gymraeg er mwyn monitro eu cydymffurfiad â'r safonau. Mae Cydlynwyr y Gymraeg yn gyfrifol am arwain y gwaith hwn yn eu priod feysydd ac am barhau i adolygu perfformiad eu hadrannau neu gyfadrannau yn rheolaidd.

Mae Adroddiad Sicrwydd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn rhoi barn annibynnol, yn seiliedig ar eu hymchwiliadau eu hunain, er mwyn hysbysu siaradwyr Cymraeg i ba raddau y mae sefydliadau cyhoeddus yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer, ac ansawdd y gwasanaethau hynny; amlygu meysydd llwyddiant sefydliadau wrth weithredu'r Safonau; a lle mae angen datblygu trefniadau cydymffurfio. Gellir darllen adroddiad 2020-21, 'Camu Ymlaen' *yma.

4.CYDYMFFURFIO

4.1. Sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Cynhelir cyfarfodydd gyda staff ar bob lefel, adran a chyfadran ar draws y Brifysgol drwy gydol y flwyddyn, er mwyn sicrhau bod cydweithwyr yn deall o safbwynt gweithredol, beth mae pob safon yn ei olygu er mwyn parhau i gydymffurfio. Mae mwyafrif staff y brifysgol wedi parhau i weithio o gartref ers canol mis Mawrth 2020 ac mae cydweithwyr wedi addasu i weithredu trwy gynnal cyfarfodydd rhithwir, digwyddiadau ar-lein fel ein digwyddiadau recriwtio israddedig, ôl-raddedig a chlirio a darlithoedd ar-lein. Mae nifer cyfyngedig o gydweithwyr a myfyrwyr wedi parhau i fynychu'r campws drwy gydol y pandemig megis ein tîm Ystadau a Diogelwch a staff sy'n addysgu ar ein cyrsiau galwedigaethol, megis nyrsio a bydwreigiaeth.

Mae Cynllun Gweithredu'r Safonau yn trafod sut mae Prifysgol De Cymru yn bwriadu cydymffurfio â'r Safonau, ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Brifysgol.

4.2. Sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi

Mae pob polisi sy'n cael ei greu neu ei ddiwygio yn dilyn ein prosesau Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EIA). Mae'r ffurflen yn cynnwys adran i'r Gymraeg gael ei hystyried o ran yr effaith y gall unrhyw bolisi newydd, neu ddiwygiad ei gael ar yr iaith. Cedwir cofnod o bob ffurflen a chaiff ei hanfon at y tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae'r tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn trafod yr asesiad am y Gymraeg gydag Is-ysgrifennydd y Brifysgol a Phennaeth y Gymraeg a'u cyflwyno i Grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol, sy'n cael ei gadeirio gan Ysgrifennydd y Brifysgol.

4.3. Sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu

Mae'r Brifysgol wedi datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg - gellir dod o hyd i'r polisi yma.

Mae'r holl bolisïau sy'n ymwneud â phroses recriwtio a chyflogaeth y Brifysgol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar y fewnrwyd. Mae staff yn gallu nodi eu dewis iaith ar y system adnoddau dynol, iTrent, a chaiff y cofnod hwn ei wirio wrth ohebu gyda staff.

Mae cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg ar unrhyw lefel yn parhau i gael eu darparu ar-lein, yn rhad ac am ddim gan Ganolfan Dysgu Cymraeg Morgannwg. Mae staff hefyd yn gallu sgwrsio yn Gymraeg drwy fynychu digwyddiadau anffurfiol, ar-lein a gynhelir yn wythnosol.

4.4. Nifer y cwynion a dderbyniwyd (fesul dosbarth o safonau – cyflenwi gwasanaeth, llunio polisi, gweithredol)

Ymdrinnir â chwynion am y Gymraeg a/neu gwynion a dderbynnir yn y Gymraeg neu Saesneg am unrhyw agwedd yn ymwneud â'r Safonau yn unol â pholisi cwynion y Brifysgol. Gellir dod o hyd i'n Polisi Cwynion a'r broses ar wefan y Brifysgol. Mae'r polisi wedi'i gymeradwyo gan Grŵp Llywio'r Gymraeg a chaiff ei adolygu yn unol â'r prosesau mewnol.

Dylid nodi y caiff cwynion sy'n dod o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg eu prosesu'n unol â safonau ac amserlen Swyddfa'r Comisiynydd. Caiff y broses hon ei blaenoriaethu dros ein terfynau amser arferol.

Yn ystod y cyfnod adrodd 1 Awst 2020 - 31 Gorffennaf 2021, derbyniwyd tri chwyn - gweler atodiad 1.

4.5 Sgiliau Cymraeg Cyflogeion

Mae'n system AD yn darparu dadansoddiad manwl o sgiliau staff mewn cyd-destunau gwahanol (darllen, ysgrifennu a siarad) sy'n rhoi darlun gwell i'r Brifysgol o'r sgiliau amrywiol ar draws yr adrannau a'r cyfadrannau.

Allan o 1552 aelod o staff, mae 72% wedi cwblhau eu cofnod sgiliau. Mae 441 eto i wneud hynny. Yn ogystal, nid yw pob cydweithiwr wedi cofnodi pob sgil, sy'n esbonio pam mae gwahaniaethau yng nghyfanswm y gyfradd gwblhau ym mhob un o'r categorïau isod.

Mae'r Uned Gymraeg yn atgoffa cydweithwyr yn rhagweithiol i gwblhau eu cofnod trwy gydol y flwyddyn, trwy Gydlynwyr y Gymraeg a'u rheolwyr llinell.

Sylwer: Ar 1 Awst 2020 ailstrwythurodd y Brifysgol ei threfniant cyfadrannau o bedwar i dri. Mae Ysgol Busnes De Cymru yn rhan o'r Gyfadran Diwydiannau Creadigol ac mae'r Gyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg yn cynnwys Canolfan Dysgu Cymraeg Morgannwg.

Lefelau Meini Prawf: Y gallu i siarad a gwrando yn Gymraeg	
Lefel 0	Dim gallu.
Lefel 1	Gallaf gynnal sgwrs sylfaenol yn Gymraeg.
Lefel 2	Gallaf gynnal sgyrsiau syml yn ymwneud â gwaith.
Lefel 3	Gallaf sgwrsio mewn rhai sgyrsiau sy'n gysylltiedig â gwaith
Lefel 4	Gallaf sgwrsio yn y rhan fwyaf o sgyrsiau sy'n gysylltiedig â gwaith.
Lefel 5	Yr wyf yn rhugl.

Staff Academaidd a Phroffesiynol: Y gallu i siarad a gwrando yn Gymraeg							
Adran/Cyfadran	**0**	**1**	**2**	**3**	**4**	**5**	**Cyfanswm**
Cofrestrfa Academaidd	45	37	6	5	2	1	**96**
Ystadau a Chyfleusterau	89	23	7	4	4	2	**129**
Gwyddorau Bywyd ac Addysg - *Staff Academaidd*	133	77	18	8	8	15	**259**
Gwyddorau Bywyd ac Addysg - *Staff Proffesiynol*	8	16	3	1	1	5	**34**
Diwydiannau Creadigol - *Staff Academaidd*	98	65	9	0	3	17	**192**
Diwydiannau Creadigol -*Staff Proffesiynol*	8	8	1	0	1	0	**18**
Cyfrifiadureg, Peirianneg a Gwyddoniaeth – *Staff Academaidd*	157	72	22	3	10	7	**271**
Cyfrifiadureg, Peirianneg a Gwyddoniaeth - *Staff Proffesiynol*	12	12	1	6	2	0	**33**
Y Gyfarwyddiaeth	19	13	3	2	1	3	**41**
Adran Gyllid	27	14	1	0	2	0	**44**
Llywodraethu, Sicrwydd a Chyfreithiol	1	8	1	0	0	5	**15**
Marchnata a Denu Myfyrwyr	28	19	2	3	2	9	**63**
Gwasanaethau Myfyrwyr	37	22	5	0	3	1	**68**
Datblygu Sefydliadol	12	8	3	0	2	0	**25**
Ymchwil a Datblygiad Busnes	20	31	4	2	1	1	**59**
Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth	39	30	2	5	0	3	**79**
Gwasanaethau Dysgu	39	49	7	4	1	3	**103**
PDC Rhyngwladol	9	12	0	1	0	1	**23**
Cyfanswm	**781**	**516**	**95**	**44**	**43**	**73**	
%	**50%**	**33%**	**6%**	**3%**	**3%**	**5%**	
Cyfanswm Staff sydd wedi cwblhau cofnod sgiliau							**1552**

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Lefelau Meini Prawf: Y gallu i ddarllen yn Gymraeg

Lefel 0	Dim gallu.
Lefel 1	Gallaf ddeall testun sylfaenol a byr iawn.
Lefel 2	Gallaf ddeall testun arferol a hanfod testun nad yw'n arferol ar faterion cyfarwydd sy'n ymwneud â gwaith.
Lefel 3	Gallaf ddeall y rhan fwyaf o destun arferol ac anarferol sy'n gysylltiedig â gwaith pan ddefnyddir iaith safonol.
Lefel 4	Gallaf ddarllen y rhan fwyaf o ddeunydd sy'n gysylltiedig â gwaith.
Lefel 5	Gallaf ddeall yr holl ddeunydd sy'n ymwneud â gwaith yn llawn.

Staff Academaidd a Phroffesiynol: Y gallu i ddarllen yn Gymraeg							
Adran/ Cyfadran	**0**	**1**	**2**	**3**	**4**	**5**	**Cyfanswm**
Cofrestrfa Academaidd	**37**	**37**	**1**	**5**	**3**	**2**	**85**
Ystadau a Chyfleusterau	**84**	**25**	**2**	**4**	**7**	**2**	**124**
Gwyddorau Bywyd ac Addysg - *Staff Proffesiynol*	**8**	**11**	**4**	**2**	**1**	**5**	**31**
Gwyddorau Bywyd ac Addysg -*Staff Academaidd*	**111**	**58**	**11**	**9**	**9**	**14**	**212**
Diwydiannau Creadigol - *Staff Proffesiynol*	**8**	**8**	**1**	**0**	**1**	**0**	**18**
Diwydiannau Creadigol - *Staff Academaidd*	**86**	**48**	**14**	**1**	**3**	**17**	**169**
Cyfrifiadureg, Peirianneg a Gwyddoniaeth - *Staff Proffesiynol*	**12**	**11**	**2**	**2**	**5**	**0**	**32**
Cyfrifiadureg, Peirianneg a Gwyddoniaeth – *Staff Academaidd*	**161**	**70**	**15**	**4**	**8**	**10**	**268**
Y Gyfarwyddiaeth	**20**	**10**	**2**	**2**	**2**	**3**	**39**
Adran Gyllid	**27**	**14**	**1**	**0**	**1**	**1**	**44**
Llywodraethu, Sicrwydd a Chyfreithiol	**1**	**7**	**1**	**0**	**0**	**5**	**14**
Marchnata a Denu Myfyrwyr	**30**	**15**	**3**	**1**	**1**	**11**	**61**
Gwasanaethau Myfyrwyr	**32**	**18**	**5**	**1**	**4**	**1**	**61**
Datblygu Sefydliadol	**14**	**6**	**2**	**3**	**4**	**1**	**30**
Ymchwil a Datblygiad Busnes	**22**	**23**	**8**	**1**	**1**	**1**	**56**
Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth	**38**	**19**	**3**	**1**	**3**	**3**	**67**
Gwasanaethau Dysgu	**40**	**43**	**14**	**2**	**3**	**3**	**105**
PDC Rhyngwladol	**10**	**10**	**1**	**0**	**1**	**1**	**23**
Cyfanswm	**741**	**433**	**90**	**38**	**57**	**80**	
%	**51%**	**30%**	**6%**	**3%**	**4%**	**6%**	
Cyfanswm Staff sydd wedi cwblhau cofnod sgiliau							**1439**

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Lefelau Meini Prawf: Y gallu i ysgrifennu yn Gymraeg.

Lefel 0	Dim gallu.
Lefel 1	Gallaf drosglwyddo neges syml, gwneud ceisiadau syml neu lenwi ffurflenni syml gyda gwybodaeth sylfaenol.
Lefel 2	Gallaf ysgrifennu testunau byr ar faterion cyfarwydd yn gysylltiedig â gwaith.
Lefel 3	Gallaf ysgrifennu testun arferol ac anarferol yn gysylltiedig â gwaith.
Lefel 4	Gallaf ysgrifennu gwahanol fathau o destunau mewn arddulliau sy'n briodol i'r darllenydd mewn golwg.
Lefel 5	Gallaf ysgrifennu'n rhugl, yn gywir ac yn fanwl gywir, gan addasu arddull yn ôl y gynulleidfa.

Staff Academaidd a Phroffesiynol: Y gallu i ysgrifennu yn Gymraeg							
Adran/Cyfadran	**0**	**1**	**2**	**3**	**4**	**5**	**Cyfanswm**
Cofrestrfa Academaidd	45	25	5	4	0	2	**81**
Ystadau a Chyfleusterau	89	19	2	7	3	2	**122**
Gwyddorau Bywyd ac Addysg - *Staff Proffesiynol*	11	9	4	0	1	5	**30**
Gwyddorau Bywyd ac Addysg - *Staff Academaidd*	136	30	14	5	5	14	**204**
Diwydiannau Creadigol - *Staff Proffesiynol*	9	7	1	0	1	0	**18**
Diwydiannau Creadigol - *Staff Academaidd*	102	35	6	1	0	17	**161**
Cyfrifiadureg, Peirianneg a Gwyddoniaeth - *Staff Proffesiynol*	16	7	6	2	2	0	**33**
Cyfrifiadureg, Peirianneg a Gwyddoniaeth -*Staff Academaidd*	183	49	13	5	8	5	**263**
Y Gyfarwyddiaeth	22	7	4	2	1	2	**38**
Adran Gyllid	28	12	1	0	1	1	**43**
Llywodraethu, Sicrwydd a Chyfreithiol	3	5	0	0	1	4	**13**
Marchnata a Denu Myfyrwyr	34	9	1	3	3	8	**58**
Gwasanaethau Myfyrwyr	36	14	4	3	0	1	**58**
Datblygu Sefydliadol	16	6	1	1	1	0	**25**
Ymchwil a Datblygiad Busnes	27	22	5	0	0	2	**56**
Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth	44	14	6	0	0	3	**67**
Gwasanaethau Dysgu	50	36	6	4	1	3	**100**
PDC Rhyngwladol	12	9	1	1	0	1	**24**
Cyfanswm	**863**	**315**	**80**	**38**	**28**	**70**	
%	**62%**	**23%**	**6%**	**3%**	**2%**	**5%**	
Cyfanswm Staff sydd wedi cwblhau cofnod sgiliau							**1394**

4.6 Nifer a chanran y staff a fynychodd hyfforddiant Cymraeg

Ni fynychodd unrhyw un hyfforddiant Cymraeg a enwir yn yr hysbysiad cydymffurfio yn ystod y cyfnod 1 Awst 2020-31 Gorffennaf 2021.

4.7 Nifer y staff sy'n gwisgo bathodyn neu linyn gwddf 'laith Gwaith' ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

Dosbarthir cortynnau gwddf 'laith gwaith' i unrhyw staff sydd wedi nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg. Gellir gwneud cais amdanynt drwy'r Cydlynwyr neu'r Uned Gymraeg.

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am fathodyn na chortyn gwddf yn ystod y cyfnod adrodd.

4.8 Hyfforddiant laith

Mae'r Brifysgol yn annog staff yn rhagweithiol i ddysgu Cymraeg a darperir cyrsiau gan Ganolfan Dysgu Cymraeg Morgannwg, sydd wedi'i lleoli ar gampws Trefforest y Brifysgol. Yn ystod y cyfnod adrodd cofrestrodd 157 aelod o staff i astudio'r Gymraeg. Ers dechrau'r pandemig COVID-19, mae gwersi'n parhau i gael eu haddysgu ar-lein.

4.9 Swyddi newydd a gwag

Yn ystod 1 Awst 2020-31 Gorffennaf 2021, hysbysebwyd 185 o swyddi gwag ac ni chafodd unrhyw swyddi newydd eu creu. Hysbysebwyd y swyddi yn ôl y categorïau canlynol:

Hysbyseb Swydd	**Swyddi newydd**	**Swyddi Gwag**	**Cyfanswm**
Sgiliau Cymraeg yn hanfodol	0	1	1
Sgiliau Cymraeg yn ddymunol	0	108	108
Sgiliau Cymraeg ddim yn angenrheidiol	0	76	76
Angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir i'r swydd	0	0	0
Cyfanswm			**185**

5.GWYBODAETH BELLACH

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr adroddiad monitro neu am unrhyw agwedd ar gydymffurfiaeth Prifysgol De Cymru gyda Safonau'r Gymraeg, cysylltwch â:

Yr Uned Gymraeg
Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol,
Prifysgol De Cymru
Campws Pontypridd
CF37 1DL
cymraeg@decymru.ac.uk

Atodiad 1

Cwynion

Dyddiad Derbyn	**Disgrifiad o'r Gŵyn**	**Dosbarth y Safon**	**Dyddiad Datryswyd**
06.11.2020	Cwrs BA (Anrh) Theatr a Drama	Cyflenwi gwasanaethau	25.11.2020
13.11.2020	Dogfen uniaith Saesneg yn cael ei darparu i'r Senedd. Cadarnhaodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg nad oedd sail i'r gŵyn.	Cyflenwi gwasanaethau	11.12.2020
07.12.2020	Dolen ddim yn gweithio ar dudalen we Gymraeg.	Cyflenwi gwasanaethau	14.12.2020